
Comisiwn y Senedd

Adolygiad effeithiolrwydd: Bwrdd Taliadau Annibynnol y Senedd

Ionawr 2023

Adolygwyd gan: Gareth Watts, Pennaeth Llywodraethu a Sicrwydd

Cynnwys

1.	Crynodeb gweithredol	1
1.1	Cyflwyniad a gwybodaeth gefndir.....	1
1.2	Cwmpas	1
1.3	Casgliad	2
1.4	Argymhellion	2
1.5	Gwaith pellach.....	2
1.6	Cydnabyddiaeth	3
2.	Canfyddiadau manwl	4
2.1	Dynameg y Bwrdd	4
2.2	Cyfarfodydd y Bwrdd.....	4
2.3	Y Cymorth a ddarperir i'r Bwrdd gan y Comisiwn.....	5
2.4	Barn rhanddeiliaid.....	6
2.5	Gwella parhaus.....	8
2.6	Sylwadau i gloi.....	9
	Atodiad 1 – Argymhellion.....	10
	Atodiad 2 – Rhestr o'r rhai a gafodd eu cyfweld.....	15

1. Crynodeb gweithredol

1.1 Cyflwyniad a gwybodaeth gefndir

- 1.1.1 Rwyf wedi cynnal adolygiad canol tymor o effeithiolrwydd Bwrdd Taliadau Annibynnol y Senedd (y Bwrdd).
- 1.1.2 Mae'r Bwrdd yn gwneud penderfyniadau annibynnol ynghylch cyflog Aelodau o'r Senedd (Aelodau) a'r cymorth uniongyrchol a roddir iddynt, a hynny er mwyn denu ystod eang o ymgeiswyr galluog ac amrywiol, ac er mwyn galluogi'r rhai a gaiff eu hethol i gyflawni eu swyddi'n effeithiol, gan sicrhau gwerth am arian i bobl Cymru. Sefydlwyd y Bwrdd gan Fesur Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Taliadau) 2010.
- 1.1.3 Y Bwrdd presennol yw'r trydydd Bwrdd Taliadau. Cynhaliodd ei gyfarfod cyntaf ar 23 Medi 2020. Mae aelodau'r Bwrdd yn cael eu penodi gan Gomisiwn y Senedd am gyfnod penodol o bum mlynedd (trefniant y gellir ei adnewyddu am gyfnod pellach o bum mlynedd). Mae dau aelod o'r Bwrdd presennol bellach yn gwneud eu hail gyfnod pum mlynedd o wasanaeth. Ers i'r Bwrdd gynnal ei gyfarfod cyntaf ym mis Medi 2020, bu newid yn ei aelodaeth. Yn dilyn ymddiswyddiad un aelod, penodwyd aelod newydd yn ei le ym mis Awst 2021.

1.2 Cwmpas

- 1.2.1 Wrth gynnal yr adolygiad hwn, rwyf wedi canolbwyntio ar y meysydd allweddol a ganlyn:
- Dymneg y Bwrdd;
 - Cyfarfodydd y Bwrdd;
 - Y cymorth a ddarperir ar gyfer y Bwrdd;
 - Barn rhanddeiliaid;
 - Gwella a datblygu parhaus.

Roedd y ddau fater arall a gafodd eu nodi yn y cylch gorchwyl yn ymwneud â'r rhaglen waith ac effaith pandemig COVID. Nid wyf wedi llunio adrannau ar wahân ar gyfer y materion hyn. Yn hytrach, rwyf wedi gwneud sylwadau ar waith y Bwrdd ac effaith y pandemig, lle bo'n briodol, drwy gydol y pum prif adran.

- 1.2.2 Cafodd y dystiolaeth a arweiniodd at yr adroddiad hwn ei chasglu mewn trafodaethau a gynhaliwyd â chroestoriad o randdeiliaid y Bwrdd, gan gynnwys:
- Aelodau'r Bwrdd;
 - Ysgrifenyddiaeth y Bwrdd;
 - Aelodau o dîm integredig y Bwrdd; ac

-
- Aelodau o'r Senedd a staff cymorth yr Aelodau.¹

Ceir rhagor o fanylion am y bobl a gyfwelwyd gennyf fel rhan o'r adolygiad yn Atodiad 2 i'r adroddiad hwn.

- 1.2.3 Yn ogystal, adolygais gofnodion a phapurau a oedd yn gysylltiedig â chyfarfodydd y Bwrdd, ynghyd â'i gylch gorchwyl. Nid yw'r adolygiad yn ystyried 'effeithiolrwydd' yng nghydestun a yw'r Bwrdd wedi cyflawni ei amcanion strategol, gan ei bod yn rhy gynnar yn nhymor y Bwrdd i asesu hynny eto.
- 1.2.4 Bydd yr adroddiad hwn yn crynhoi fy nghanfyddiadau sy'n deillio o'r adolygiad ac yn gwneud argymhellion.

1.3 Casgliad

- 1.3.1 Ers dechrau tymor y Bwrdd presennol yn 2020, mae'r Bwrdd wedi wynebu heriau sylweddol. Yn benodol, mae wedi gorfod gweithredu drwy'r pandemig COVID, sydd wedi arwain at weithio mewn ffyrdd gwahanol iawn i'r Byrddau a'i rhagflaenodd.
- 1.3.2 Mae aelodau'r Bwrdd yn ymwybodol iawn o'r anawsterau y bu'n rhaid iddynt eu hwynebu fel grŵp yn sgil y pandemig, ond hefyd y cyfyngiadau y mae amodau'r 'cyfnodau clo' wedi'u gosod ar eu gallu i ryngweithio â'i rhanddeiliaid.
- 1.3.3 O ganlyniad i'r adolygiad, mae tair thema bwysig wedi dod i'r amlwg:
 - mae diffyg eglurder ynghylch rolau a chyfrifoldebau mewn nifer o feysydd, sy'n arwain at ddiffyg dealltwriaeth gyffredin ynghylch y berthynas rhwng y Comisiwn a'r Bwrdd;
 - mae elfen o rwystredigaeth gyda'r Bwrdd, yn ogystal â cholli hyder ac ymddiriedaeth ynddo, ymhlith rhai o'r Aelodau a'u staff cymorth; ac
 - mae pryderon ynghylch y cymhlethdod a'r anawsterau sydd ynghlwm wrth ddehongli'r Penderfyniad.

1.4 Argymhellion

- 1.4.1 Rwyf wedi gwneud 12 o argymhellion. (Atodiad 1.)

1.5 Gwaith pellach

- 1.5.1 Fel yr amlinellir yn Atodiad 1, dylai'r Bwrdd roi cynllun gweithredu ar waith er mwyn mynd i'r afael â'r argymhellion sydd wedi'u gwneud. Rywbryd cyn diwedd tymor y Bwrdd presennol, dylid comisiynu adolygiad effeithiolrwydd pellach at ddibenion gwneud gwaith dilynol a

¹Y dull gweithredu a fabwysiadwyd gennyf oedd sgwrsio â Chomisiynwyr, a rannodd eu safbwyntiau â mi yn rhinwedd y rôl honno, yn ogystal â safbwyntiau a oedd wedi dod i'r amlwg o fewn eu grwpiau. Cynhaliais gyfarfodydd hefyd â'r un Aelod nad yw'n rhan o unrhyw grŵp plaid, a chydag Aelod ychwanegol a ofynnodd am gael sgwrs â mi. O ran staff cymorth, cynhaliais gyfarfodydd â'r penaethiaid staff, a roddodd adborth ar ran eu cydweithwyr yn y grŵp. Cynhaliais gyfarfod hefyd ag aelod o staff cymorth sy'n gweithio i Aelod nad yw'n rhan o unrhyw grŵp plaid.

dilysu'r cynnydd a wneir, yn ogystal â gwerthuso effeithiolrwydd cyffredinol y Bwrdd drwy gydol ei dymor.

- 1.5.2 Dylid cyflwyno pob opsiwn gwahanol o ran cynnal adolygiad o'r fath i'r Bwrdd ar yr adeg honno, er mwyn caniatáu iddo wneud penderfyniad gwybodus ynghylch sut y mae'n dymuno gweld yr adolygiad hwnnw'n cael ei gynnal.

1.6 Cydnabyddiaeth

- 1.6.1 Hoffwn ddiolch i bawb a gyfrannodd at yr adolygiad effeithiolrwydd hwn.

2. Canfyddiadau manwl

2.1 Dynameg y Bwrdd

- 2.1.1 Mae gan y Bwrdd presennol ystod eang o sgiliau, gan gynnwys y canlynol, ond heb fod yn gyfyngedig iddynt: gwybodaeth a phrofiad o wleidyddiaeth leol a chenedlaethol; dealltwriaeth o weithrediadau deddfwrfa; ymrwymiad i gefnogi amrywiaeth mewn bywyd cyhoeddus; gwybodaeth am fywyd cyhoeddus yng Nghymru a phrofiad ohono; ac arbenigedd mewn meysydd technegol fel pensiynau. Mae'r Cadeirydd yn ystyried sgiliau amrywiol a phrofiad unigol pob aelod wrth ddynodi aelodau fel arweinwyr mewn meysydd penodol o waith y Bwrdd.
- 2.1.2 Mae'r cyfuniad hwn o sgiliau, gwybodaeth, a phrofiad yn ychwanegu gwerth at y ffordd y mae'r Bwrdd yn gweithredu, yn rhoi hygyrdd i'r Bwrdd o ran ei waith ymgysylltu â'i randdeiliaid amrywiol, ac yn meithrin parch cadarnhaol a chydfuddiannol ymhlith aelodau'r Bwrdd.
- 2.1.3 Un ffynhonnell o rwystredigaeth sylweddol i aelodau'r Bwrdd fu'r diffyg cyfleoedd i gwrdd â'i gilydd yn y cawd a chyda rhanddeiliaid, a hynny yn sgil y pandemig. Mae hwn yn fater pwysig sydd wedi effeithio ar gyfleoedd aelodau unigol o'r Bwrdd i gwrdd â'u cydweithwyr newydd a dod i'w hadnabod. Mae hefyd wedi rhwystro'r Bwrdd rhag meithrin perthnasoedd gwaith gwell gyda thîm yr ysgrifenyddiaeth a'r garfan ehangach o swyddogion y Comisiwn sy'n cefnogi gwaith y Bwrdd.
- 2.1.4 Wrth i'r Bwrdd barhau i esblygu, ac wrth i faint y Senedd ehangu yn y dyfodol, ynghyd â'i chylch gwaith, o bosibl, efallai y bydd cyfleoedd hefyd i werthuso eto rôl y Bwrdd, a'r sgiliau, y profiadau a'r ymrwymadau amser y bydd eu hangen ymhlith aelodau'r Bwrdd yn y dyfodol.

2.2 Cyfarfodydd y Bwrdd

- 2.2.1 Mae'r pandemig wedi dylanwadu'n sylweddol ar natur y cyfarfodydd hyn. Mae mwyafrif y cyfarfodydd sydd wedi'u cynnal ers mis Medi 2020 wedi bod yn rhai rhithwir. Ymhlith yr amryfal heriau sydd ynghlwm wrth gynnal cyfarfodydd o'r fath y mae'r her ymarferol o glercio cyfarfodydd. Mae rhagor o sylwadau ar glercio wedi'u cynnwys yn yr adran ar y cymorth a ddarperir gan Gomisiwn y Senedd. Fodd bynnag, yn sgil y sgysiau a gafwyd gennyf, mae'n amlwg bod y cyfleoedd i'r tîm clercio gefnogi'r Cadeirydd yn llawn, mewn amser real ac mewn amgylchedd rhithwir, wedi bod yn hynod gyfyngedig.
- 2.2.2 Credaf y byddai'n ddefnyddiol pe bai manylion mwy eglur ynghylch rolau a chyfrifoldebau'r unigolion sy'n cymryd rhan mewn cyfarfodydd, ynghyd â manylion y gweithdrefnau a'r rheolau sy'n berthnasol i'r cyfarfodydd, yn cael eu nodi mewn un ddogfen hygyrch fel Siarter ar gyfer y Bwrdd.

2.2.3 Mae'r adborth a gafwyd yn sgil yr adolygiad wedi nodi safbwyntiau gwahanol ynghylch effeithiolrwydd gweithredol y cyfarfodydd. Nodaf fod y Cadeirydd wedi rhoi cyfle i gyfranogwyr roi adborth ar ddiwedd pob cyfarfod. Mae'n bosibl y bydd y Bwrdd a'r Comisiwn hefyd yn dymuno archwilio ffyrdd a mecanweithiau eraill ar gyfer ennyn adborth mewn amser real.

2.3 Y Cymorth a ddarperir i'r Bwrdd gan y Comisiwn

- 2.3.1 Yn unol ag Adran 9 o Fesur y Bwrdd Taliadau 2010: "Rhaid i Gomisiwn y [Senedd] ddarparu ar gyfer y Bwrdd unrhyw gymorth gweinyddol y mae'n rhesymol i'r Bwrdd ofyn amdano i'w alluogi i gyflawni ei swyddogaethau."
- 2.3.2 Ar hyn o bryd, caiff aelodau o staff sy'n cael eu cyflogi gan y Comisiwn ac sy'n rhan o gronfa o swyddi clerico eu henwebu i wasanaethu'r Bwrdd. Mae hyn yn digwydd yn benodol ar ddechrau Senedd newydd, neu pan fydd swyddi gwag neu swyddi newydd yn codi (neu pan fydd ymarfer recriwtio allanol yn cael ei gynnal, yn ôl yr angen). Roedd yr holl bobl a gafodd eu cyfwrdd yn cydnabod bod tymor y Bwrdd wedi cyd-daro â chyfnod o newid a chynnwrf sylweddol o ran yr adnoddau sydd ar gael i dîm ysgrifenyddiaeth y Bwrdd.
- 2.3.3 Hyd at fis Ionawr 2022, dim ond dau aelod o staff oedd wedi'u neilltuo i'r Bwrdd: Clerc a Dirprwy Clerc. Mae'r Bwrdd wedi cael, ac yn parhau i gael, cymorth ehangach gan dîm integredig, gan gynnwys arbenigedd o'r adran Ymchwil, y tîm Cymorth Busnes i'r Aelodau a'r Gwasanaethau Cyfreithiol, ynghyd â chymorth ad-hoc gan y tîm Cyfathrebu. Roedd y Bwrdd yn teimlo nad oedd ganddo'r holl arbenigedd technegol sydd ei angen arno, gan nodi mai dim ond cyngor rhan amser gan arbenigwyr ym maes y gyfraith a chyllid y mae wedi cael mynediad ato.
- 2.3.4 Mae'r achos dros gael adnoddau ychwanegol wedi'i wneud i'r Comisiwn, a hynny mewn ymdrech i fynd i'r afael â nifer o'r materion sy'n cael eu codi yma – materion y mae'r Bwrdd wedi tynnu sylw atynt. Roedd y materion hyn yn cynnwys cyflymder y gwaith, ymateb yn fwy strategol, gwella'r broses ymgysylltu, a defnyddio gwahanol ffyrdd o weithio gydag Aelodau.
- 2.3.5 Fel rhan o'r achos dros gael adnoddau ychwanegol, mae'r Bwrdd yn ceisio recriwtio ymchwilydd ychwanegol a fyddai'n dod yn arbenigwr ar faterion y Bwrdd, gan ategu'r cymorth eraill a roddir. Mae adnodd wedi'i ddyrannu iddo o wasanaeth Cyfathrebu'r Comisiwn. Er bod rhai aelodau o staff wedi ymuno â'r tîm ysgrifenyddiaeth dros y 12 mis diwethaf, mae'r broses o recriwtio staff wedi cymryd mwy o amser na'r disgwyl. Mae'r sefyllfa hon wedi'i chydabod yng nghyd-destun capasiti corfforaethol y Comisiwn, sy'n rhan o'r gofrestr risg strategol.
- 2.3.6 Mae anawsterau staffio wedi dod i'r amlwg yn ystod tymor y Bwrdd hwn yn sgil amgylchiadau nad oedd modd eu hosgoi, a chafodd y sefyllfa hon ei chydabod gan holl randdeiliaid y Bwrdd yn ystod fy adolygiad. Mae'r heriau staffio hyn, ynghyd ag anawsterau

sy'n gysylltiedig â gweithio'n rhithwir, wedi gwneud y berthynas waith rhwng y Bwrdd a'i ysgrifenyddiaeth yn fwy heriol i bawb dan sylw.

- 2.3.7 Dros y flwyddyn ddiwethaf, mae'r Comisiwn wedi cydnabod y cymhlethdod sy'n wynebu Aelodau o ran pwy sy'n gyfrifol am beth yng nghyd-destun y trefniadau llywodraethu sy'n gysylltiedig â gwariant Aelodau a'u defnydd o adnoddau'r Senedd. Yn ystod 2021, cynhaliwyd ymgynghoriad ar reolau'r Swyddog Cyfrifyddu. Mae fersiwn wedi'i diweddarau o Reolau a Chanllawiau'r Swyddog Cyfrifyddu ar ddefnyddio Adnoddau'r Senedd wedi'i chynhyrchu a'i chyhoeddi. Daeth y rhain i rym ar ddiwrnod cyntaf toriad yr haf, sef 18 Gorffennaf 2022. Cafodd y rheolau hyn eu diweddarau yn dilyn ymgynghoriad ffurfiol ac anffurfiol ag Aelodau, staff cymorth, y Bwrdd Taliadau, y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg (ARAC), a'r cyhoedd. Mae'r rheolau wedi'u symleiddio lle bo modd.
- 2.3.8 Mae'r maes hwn yn cael ei gydnabod fel amgylchedd rheoleiddio cymhleth iawn, ac mae'r Comisiwn wedi codi risg corfforaethol i'w reoli mewn modd rhagweithiol. Un o'r rheolaethau lliniarol a roddwyd ar waith oedd y cam o sefydlu'r Fforwm Rheoleiddio, sy'n cynnwys staff perthnasol o bob rhan o'r Comisiwn, gan gynnwys y rhai sy'n cefnogi'r Bwrdd. Mae'r fforwm hwn yn cyfarfod yn achlysurol. Nod y fforwm yw hyrwyddo cyd-ddealltwriaeth ynghylch y materion sy'n cael eu codi, a cheisio ffyrdd o'u datrys.
- 2.3.9 Yn ogystal, fel rhan o'r adolygiad, trafodwyd rôl y Comisiwn a'r Bwrdd wrth symud ymlaen, ac yn benodol, eu rolau wrth i'r broses o ddiwygio'r Senedd fynd rhagddi. Bydd Comisiwn y Senedd yn gyfrifol am adolygu ei eiddo, ei staff, a'i wasanaethau mewn ymateb i'r broses o Ddiwygio'r Senedd o fewn y sefydliad. Bydd gan y Bwrdd Taliadau rai penderfyniadau strategol pwysig i'w gwneud fel rhan o'r broses, a bydd yn rhan annatod o lywodraethu'r prosiect. Mae safbwyntiau amrywiol ynghylch sut y bydd hyn yn gweithio. Nodwyd bod y rhai sy'n arwain ar y broses ddiwygio ar ran y Comisiwn yn rhan o'r un gwasanaeth sydd hefyd yn cefnogi'r Bwrdd Taliadau. Mae'r sefyllfa hon yn cynnig cyfleoedd i'r rhai sy'n ymwneud â'r meysydd hyn gan eu bod mor gyfarwydd â'r ddwy agwedd hon. Fodd bynnag, gallai staff y Comisiwn hefyd fod yn agored i risgiau yn ymwneud ag annibyniaeth a gwrthdaro buddiannau.

2.4 Barn rhanddeiliaid

- 2.4.1 Mae rhanddeiliaid yn cydnabod bod y Bwrdd wedi gorfod gwneud penderfyniadau, ystyried a phwyso a mesur ei egwyddorion, gan gynnwys y ffaith bod yn rhaid i benderfyniadau fod yn briodol o fewn amgylchiadau ariannol ehangach Cymru a bod yn rhaid iddynt gynrychioli gwerth am arian o safbwynt trethdalwyr, a hynny oll mewn cyd-destun economaidd a chymdeithasol hynod heriol.
- 2.4.2 Mynegwyd peth rhwystredigaeth gan rai o'r rhanddeiliaid gwleidyddol ynghylch y ffordd y mae'r Bwrdd wedi bod yn gweithredu, ac mae rhai ohonynt wedi colli hyder yn y Bwrdd.
- 2.4.3 Cefais adborth gan rai o'r rhanddeiliaid gwleidyddol y cynhaliais gyfarfodydd â hwy, yn nodi bod rhai o'u cyd-Aelodau a'u staff cymorth wedi mynegi'r safbwyntiau a ganlyn:

-
- Mae elfen o ddyblygu yn perthyn i'r broses ymgynghori, gyda cheisiadau am yr un wybodaeth yn cael eu gwneud dro ar ôl tro.
 - Mae rhwystredigaeth ynghylch materion amseru a'r rhybudd sy'n cael ei roi i Aelodau a Staff Cymorth mewn perthynas â rhai o'r ymgynghoriadau a gynhelir.
 - Nid yw'r Bwrdd bob amser yn ymateb i ddigwyddiadau yn ddigon cyflym, ac nid yw bob amser yn dangos dealltwriaeth lawn o waith yr Aelodau neu staff cymorth.
 - Dylai'r Bwrdd fod yn fwy tryloyw, a dylai rhannu'r papurau ymchwil y mae'n eu comisiynu ar gyfer cyfarfodydd y Bwrdd.

2.4.4 Mynegodd rhanddeiliaid safbwyntiau gwahanol am ddefnyddioldeb y Penderfyniad ei hun. Roedd rhai yn ei weld fel adnodd defnyddiol a phwysig y gellir cyfeirio ato. Fodd bynnag, mynegodd llawer rwystredigaeth ynghylch pa mor anodd yw hi i ddilyn y Penderfyniad, gan nodi ei fod wedi'i llunio mewn modd tameidiog dros y degawd diwethaf neu fwy. Dywedodd rhai ei fod yn rhy rhagnodol, a nododd eraill ei fod yn darparu arweiniad annigonol.

2.4.5 Yn sgil y pandemig COVID, mae'r Bwrdd wedi gorfod dod yn fwy hyblyg o ran y modd y mae'n ymateb i roi cymorth. Er enghraifft, o dan Adran 2.5 o'r Penderfyniad, mae darpariaeth ar gyfer defnyddio cronfeydd canolog i gefnogi mesurau COVID. Fodd bynnag, roedd y modd y cyflwynwyd y ddarpariaeth hon yn golygu nad oedd angen diweddarau'r Penderfyniad i adlewyrchu unrhyw newidiadau yn ystod y flwyddyn. Mae'n darparu y gall y Bwrdd hysbysu'r Aelodau ynghylch unrhyw newidiadau. Yn ei gyfarfod ym mis Hydref 2022, penderfynodd y Bwrdd y dylai'r Gronfa hon gael ei chau ar 30 Tachwedd 2022. Anfonwyd llythyr a oedd yn cynnwys hysbysiad ysgrifenedig ynghylch bwriad y Bwrdd i gau'r Gronfa ar 30 Tachwedd 2022, er na fyddai'r Penderfyniad ei hun yn cael ei ddiweddarau tan fis Mawrth 2023. Felly, roedd y Bwrdd yn dibynnu ar y ffaith bod y tîm Cymorth Busnes i'r Aelodau a'r Aelodau eu hunain yn ymwybodol o'r llythyr hwn rhwng mis Rhagfyr 2022 a mis Ebrill 2023.

2.4.6 Mae enghraifft hanesyddol arall o'r sefyllfa hon i'w gweld mewn perthynas â threfniadau teithio staff. Mae adroddiad a gyhoeddwyd yn 2011, o dan y teitl 'Addas i'r Diben', yn cyfeirio at deithiau gan staff ac yn egluro bod lwfans yn cael ei ddyrannu ar gyfer teithiau gan staff. Serch hynny, nid yw hyn yn cael ei grybwyll yn benodol yn y Penderfyniad ei hun. Nid oedd y rhai a gafodd eu cyfweld o'r farn ei bod yn realistig i'r tîm Cymorth Busnes i'r Aelodau na'r Aelodau eu hunain gyfeirio at adroddiadau a gyhoeddwyd yn 2011 wrth geisio penderfynu ar yr hyn a ganiateir.

2.4.7 Mae risg y gallai'r tîm Cymorth Busnes i'r Aelodau a'r Aelodau eu hunain, am ba bynnag reswm, fod yn anymwybodol o unrhyw lythyrau a gyhoeddir sy'n cynnwys y wybodaeth ddiweddaraf. Dylai'r Bwrdd a'r Comisiwn gydweithio er mwyn sicrhau bod llwybr gweladwy a hygyrch ar gael parthed unrhyw lythyrau o'r fath, a hynny er mwyn sicrhau nad oes unrhyw wybodaeth yn cael ei cholli.

2.4.8 Roedd y Bwrdd eisoes wedi lansio menter symleiddio er mwyn mynd i'r afael â rhai o'r sylwadau beirniadol a wnaed am y trefniadau presennol. Nid oedd y fenter hon wedi datblygu digon ar adeg yr adolygiad er mwyn caniatáu i mi werthuso sut y byddai'n mynd i'r afael â'r materion dan sylw.

2.5 Gwella parhaus

2.5.1 Dylai Byrddau effeithiol hyrwyddo amgylchedd lle mae hunanwerthuso a datblygu parhaus yn broses arferol a bwriadol.

2.5.2 Mae gan holl aelodau'r Bwrdd brofiad sylweddol a gwerthfawr y gellir manteisio arno, yn sgil y ffaith eu bod wedi gwasanaethu ar fyrddau a phwyllgorau mewn rhannau eraill o'r sector cyhoeddus a'r sector preifat.

2.5.3 Un sbardun perfformiad pwysig ar gyfer y Bwrdd hwn yw'r dyhead i gyflawni ei strategaeth a'i flaenraglen waith. Mae ffocws cryf ar y flaenraglen waith. Cyfeirir ati ym mhob cyfarfod, a chaiff cynnydd ei olrhain yn ei herbyn. Yn ogystal, caiff ei diwygio a'i diweddarau fel y bo'n briodol.

2.5.4 Mae gan y Comisiwn gyllid y gellir ei ddefnyddio i gefnogi hyfforddiant a gweithgarwch datblygu ymhlith aelodau'r Bwrdd pe bai angen hynny. Fodd bynnag, nid yw'r Bwrdd presennol wedi gweld yr angen i ddefnyddio cyllid o'r fath. Serch hynny, mae arbenigwyr trydydd parti wedi cael eu defnyddio i roi cyngor i'r Bwrdd lle bo'n briodol. Mae'n bosibl y bydd lefelau staffio uwch ac unrhyw arbenigedd a ddarperir wrth symud ymlaen hefyd yn lleihau'r angen am y ddarpariaeth hon yn y dyfodol.

2.5.5 Mae'r Bwrdd yn cydnabod yr heriau y mae'n eu hwynebu. Yn ogystal, drwy gomisiynu'r adolygiad canol tymor hwn, mae'n dangos ei awydd i gasglu adborth a pharhau i ddatblygu wrth symud ymlaen.

2.5.6 Yn ystod yr adolygiad, awgrymodd rhai o'r unigolion a gafodd eu cyfweld y byddai modd goresgyn rhai o'r anawsterau a'r cymhlethdodau ymddangosiadol sy'n deillio o ddynameg y berthynas bresennol rhwng y Bwrdd a'r Comisiwn drwy fabwysiadu model gwahanol. Yn benodol, cyfeiriodd sawl un ohonynt at yr Awdurdod Safonau Seneddol Annibynnol (IPSA), sef y corff hyd braich annibynnol sy'n rheoleiddio ac yn gweinyddu costau busnes Tŷ'r Cyffredin, gan benderfynu ar gyflogau a phensiynau'r 650 o Aelodau Seneddol etholedig a'u staff. Wrth i ddiwygiadau'r Senedd fynd rhagddynt, ac wrth i ddyfodol y Bwrdd gael mwy o sylw, o bosibl, mae'r opsiynau o ran y modelau gwahanol y gellir eu defnyddio yn y dyfodol yn fater y gallai'r Comisiwn a'r Senedd ymdrin ag ef fel rhan o ddatblygiad y Bwrdd yn y dyfodol. Os felly, bydd gan y Bwrdd brofiad gwerthfawr i'w gyfrannu.

2.5.7 Rwy'n cydnabod bod y Bwrdd hwn yn fach o ran maint, a bod gan y Cadeirydd berthynas agos â phob aelod o ganlyniad i hynny. Yn sgil y pandemig, fodd bynnag, mae'n bosibl nad yw'r perthnasoedd hyn wedi datblygu cymaint ag y byddent o dan amgylchiadau gwahanol.

2.5.8 Fel sy'n cael ei grybwyll uchod, mae'r Cadeirydd eisoes yn gofyn am adborth ar ddiwedd pob cyfarfod. Yn ôl arfer da, dylid cyflwyno elfen o adolygu rheoli perfformiad hefyd er mwyn rheoli'n ffurfiol y disgwyliadau sydd gan y Cadeirydd ac aelodau eraill y Bwrdd, ac er mwyn lliniaru'r risg na fydd tanberfformio yn cael sylw mewn Bwrdd yn y dyfodol.

2.6 Sylwadau i gloi

2.6.1 Gwahoddir y Bwrdd i ystyried a thrafod canfyddiadau'r adolygiad hwn.

2.6.2 Hoffwn ddiolch eto i bawb a gyfrannodd at yr adolygiad hwn, a hoffwn ddymuno'n dda i'r Bwrdd ar gyfer y dyfodol.

Atodiad 1 – Argymhellion

Argymhelliad 1	Manylion
Mater	Mae'r adolygiad yn nodi nad oes gan y Bwrdd un ddogfen ar hyn o bryd sy'n amlinellu rolau a chyfrifoldebau'r rhai sy'n cymryd rhan mewn cyfarfodydd, nac yn nodi manylion y rheolau ar gyfer cyfarfodydd, fel sicrhau cworwm, dirprwyo ar gyfer y Cadeirydd, ac ati.
Argymhelliad	Dylai'r Bwrdd, ar y cyd â thîm yr ysgrifenyddiaeth, gyflwyno Siarter ar gyfer y Bwrdd neu ddogfen lywodraethu arall o'r fath.
Argymhelliad 2	Manylion
Mater	Mae'r pandemig COVID wedi lleihau'n sylweddol y cyfleoedd ar gyfer cynnal cyfarfodydd wyneb yn wyneb rhwng aelodau'r Bwrdd, yr ysgrifenyddiaeth, a'r timau integredig ehangach.
Argymhelliad	Dylai'r Bwrdd gydweithio â swyddogion y Comisiwn er mwyn cytuno ar drefniant i neilltuo amser ar gyfer y broses o ddatblygu perthnasoedd rhwng y Bwrdd a swyddogion. Dylid neilltuo amser a dyddiadau ar gyfer cyfleoedd datblygu a gweithgarwch adeiladu tîm, a hynny er mwyn cyfrannu at y broses o ddatblygu effeithiolrwydd y Bwrdd.
Argymhelliad 3	Manylion
Mater	Mae'n bosibl y bydd y broses o ddiwygio'r Senedd yn parhau i effeithio ar waith y Bwrdd yn y dyfodol, gan olygu y bydd angen gwahanol sgiliau, profiadau ac ymrwymadau amser gan aelodau'r Bwrdd yn y dyfodol. Er enghraifft, un cwestiwn a ofynnwyd yn ystod yr adolygiad oedd: a ddylai fod yn ofynnol i un o gyn-Aelodau'r Senedd fod yn aelod o'r Bwrdd yn y dyfodol?
Argymhelliad	Y Comisiwn sy'n gyfrifol am recriwtio i'r Bwrdd. Os bydd cyfle yn codi, dylai'r Bwrdd presennol gydweithio â'r Comisiwn i adolygu'r fanyleb ar gyfer gwasanaethu fel aelod o'r Bwrdd yn y dyfodol, a hynny yng nghyd-destun diwygio'r Senedd. Dylid cwblhau'r adolygiad hwn cyn y rownd nesaf o recriwtio ar gyfer y Bwrdd.

Argymhelliad 4	Manylion
Mater	Ar hyn o bryd, gofynnir am adborth gan aelodau'r Bwrdd a swyddogion y Comisiwn ar ddiwedd cyfarfodydd y Bwrdd. Yn ystod yr adolygiad, rhannwyd rhywfaint o adborth â mi ynghylch cyfarfodydd y Bwrdd nad oedd eisoes wedi cael ei fwydo yn ôl i'r Bwrdd. Felly, mae'n bosibl y bydd y Bwrdd am ddefnyddio dulliau eraill i gasglu adborth a cheisio sicrhau bod tystiolaeth ac adborth adeiladol yn dod i law mewn 'amser real'.
Argymhelliad	Dylai'r Bwrdd gydweithio â'r ysgrifenyddiaeth i ddatblygu mecanweithiau eraill ar gyfer casglu adborth yn rheolaidd gan bawb sy'n cymryd rhan mewn cyfarfodydd.
Argymhelliad 5	Manylion
Mater	Mae'r Bwrdd wedi cydnabod y ffaith nad oes ganddo arbenigedd ym maes trethiant ac wedi comisiynu pennaeth caffael y Comisiwn i helpu'r Bwrdd gyda'r mater hwn y flwyddyn nesaf. Mae'r Cadeirydd wedi ysgrifennu at Brif Weithredwr a Chlerc y Senedd er mwyn rhannu'r wybodaeth hon, ac wedi gofyn am ddiweddariadau gan y Comisiwn ynghylch cynnydd y trafodaethau treth a gynhelir â Chyllid a Thollau Ei Fawrhydi (HMRC). Mae meysydd eraill posibl lle nad oes digon o wybodaeth neu arbenigedd ar gael i'r Bwrdd.
Argymhelliad	Dylai'r Bwrdd wneud gwaith dadansoddi pellach ar y bylchau sy'n bodoli er mwyn pennu a oes meysydd eraill lle mae diffyg arbenigedd neu gapasiti ar gyfer gwneud penderfyniadau gwybodus â gwybodaeth gyflawn.
Argymhelliad 6	Manylion
Mater	O bryd i'w gilydd, mae diffyg eglurder o ran y berthynas rhwng y Bwrdd a'r Comisiwn a'r rolau a'r cyfrifoldebau o fewn y berthynas honno.
Argymhellion	a) Dylai'r Bwrdd gynnal trafodaethau â'r Comisiwn er mwyn adolygu eu perthynas yng nghyd-destun y gwasanaethau y mae'r Comisiwn yn eu darparu i'r Bwrdd, a dylai ystyried sut y gall y trefniant hwn weithio wrth symud ymlaen.

	b) Dylai'r Bwrdd hefyd gydweithio â staff y Comisiwn er mwyn sicrhau eglurder i Aelodau a'u staff ynghylch rolau'r Bwrdd, y tîm Cymorth Busnes i'r Aelodau, a'r Prif Weithredwr.
Argymhelliad 7	Manylion
Mater	Mynegwyd pryderon ynghylch sut y mae'r Bwrdd yn cyfathrebu â'i randdeiliaid gwleidyddol o bryd i'w gilydd. Ymhlith y sylwadau beirniadol a fynegwyd oedd yr awgrym bod dyblygu diangen yn digwydd, ynghyd â phryderon ynghylch amseru rhai ymgynghoriadau a'r rhybudd a roddir yn eu cylch.
Argymhelliad	Dylai'r Bwrdd geisio mynd i'r afael â'r pryderon a nodwyd mewn perthynas â'r ffordd y mae'n cyfathrebu â'i randdeiliaid gwleidyddol. Un posibilrwydd fyddai defnyddio arbenigedd cyfathrebu i helpu a chefnogi'r Bwrdd. Dylai'r Bwrdd hefyd gynnwys Aelodau a'u staff wrth wneud penderfyniadau terfynol ar unrhyw ffyrdd neu egwyddorion newydd sy'n cael eu mabwysiadu mewn perthynas â chyfathrebu yn y dyfodol, a chytuno arnynt, a hynny er mwyn sicrhau cyd-ddealltwriaeth.
Argymhelliad 8	Manylion
Mater	Roedd rhai rhanddeiliaid gwleidyddol o'r farn y byddai'r penderfyniadau a wneir gan y Bwrdd yn fwy dealladwy pe bai'r holl wybodaeth sy'n cael ei darparu i'r Bwrdd ar gael iddynt.
Argymhelliad	Mae tryloywder yn egwyddor bwysig sy'n sail i waith y Bwrdd. Dylai'r Bwrdd adolygu eto yr amgylchiadau lle byddai'n briodol rhannu'r wybodaeth y mae'n ei chael ar ffurf ymchwil er mwyn sicrhau bod gan y rhai yr effeithir arnynt gan ei benderfyniadau ddealltwriaeth glir o'r dystiolaeth a arweiniodd at wneud y penderfyniadau hynny.
Argymhelliad 9	Manylion
Mater	Yn ystod yr adolygiad, gwnaed nifer o sylwadau i mi am yr anawsterau y mae defnyddwyr yn eu profi o bryd i'w gilydd wrth geisio deall a dod o hyd i wybodaeth yn y Penderfyniad. Ceir diweddariadau rheolaidd ac, fel y nodir yn y prif adroddiad, o bryd i'w gilydd, mae darpariaethau ar gael i Aelodau nad yw'r Penderfyniad ei hun yn cyfeirio atynt yn benodol.

Argymhelliad	Dylai'r Bwrdd sicrhau bod y gwaith y mae'n ei wneud ar symleiddio'r broses yn mynd i'r afael â'r materion a nodwyd mewn perthynas â'r Penderfyniad. Wrth fwrw ymlaen â'r gwaith hwn, dylai hefyd gynnwys staff y Comisiwn (gan gynnwys y tîm Cymorth Busnes i'r Aelodau), yr Aelodau eu hunain a staff cymorth yn ei drafodaethau, a hynny er mwyn llywio'r ffordd ymlaen o ran y Penderfyniad.
---------------------	---

Argymhelliad 10	Manylion
Mater	Mae rhywfaint o ddadlau o hyd am ddyfodol y Bwrdd, ei berthynas â'r Senedd a'r Comisiwn, a beth fyddai natur ei gylch gwaith mewn Senedd ddiwygiedig a mwy.
Argymhelliad	Y Senedd fyddai'n gyfrifol am unrhyw newid yng nghylch gorchwyl y Bwrdd neu unrhyw broses i'w ddiwygio. Fodd bynnag, dylai'r Bwrdd gynnal trafodaethau gyda'r Comisiwn er mwyn codi'r themâu sy'n ymwneud â'i berthynas barhaus â'r Comisiwn ac unrhyw effaith bosibl ar ei gylch gwaith yn y dyfodol, o ganlyniad i ddiwygio'r Senedd.
Argymhelliad 11	Manylion
Mater	Nid oes trefniadau rheoli perfformiad ffurfiol wedi'u pennu ar gyfer y Bwrdd ar hyn o bryd.
Argymhelliad	Dylai'r Bwrdd, o dan gyfarwyddyd y Cadeirydd a chan gydweithio â'r ysgrifenyddiaeth, ystyried cyflwyno trefniadau rheoli perfformiad blynyddol gydag aelodau'r Bwrdd, a hynny'n unol ag arfer da.
Argymhelliad 12	Manylion
Mater	Mae angen i'r Bwrdd sicrhau y gall olrhain unrhyw gynnydd yn erbyn ei strategaeth – ac yn wir, yr argymhellion hyn – mewn modd digonol, gan sicrhau ei fod yn cyfathrebu â'i randdeiliaid ynghylch unrhyw gynnydd o'r fath.
Argymhelliad	Dylai'r Bwrdd gydweithio â'r ysgrifenyddiaeth i ddatblygu dull o olrhain ei gynnydd, a dylai rhoi cynllun cyfathrebu ar waith er mwyn sicrhau y gall ddangos y cynnydd sy'n cael ei wneud i'w randdeiliaid.

Atodiad 2 – Rhestr o'r rhai a gafodd eu cyfweld

Aelodau'r Bwrdd

- Elizabeth Haywood (Cadeirydd)
- Jane Roberts
- Mike Redhouse
- Hugh Widdis
- David Hanson

Aelodau o'r Senedd

Comisiynwyr

- Ken Skates AS
- Rhun ap Iorwerth AS
- Janet Finch-Saunders AS
- Joyce Watson AS

Aelodau eraill

- Jane Dodds AS
- Vikki Howells AS

Staff Cymorth

Penaethiaid Staff

- Anthony Cooper
- Carmen Smith
- Paul Smith

Staff Cymorth eraill

- Rhys Taylor

Swyddogion y Comisiwn

Ysgrifenyddiaeth

- Huw Gapper
- Ruth Hatton
- David Lakin

Swyddogion eraill

- Manon Antoniazzi (Prif Weithredwr a Chlerc)
- Siwan Davies (Cyfarwyddwr Busnes y Senedd)
- Anna Daniel (Pennaeth Trawsnewid Strategol ac Uwch-gynghorydd i'r Bwrdd Taliadau)
- Sulafa Thomas (Pennaeth y Gwasanaeth Cymorth i'r Comisiwn ac i'r Aelodau)
- Bethan Davies (Pennaeth Cymorth Busnes i'r Aelodau)
- Llinos Madeley (Cyn-Glerc y Bwrdd)
- Craig Griffiths (Cynghorydd Cyfreithiol)
- Kate Rabaiotti (Cynghorydd Cyfreithiol)
- Martin Jennings (Arweinydd y Tîm Ymchwil Cyllid)